# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 8.11.17

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W Gareth Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, R Medwyn Hughes, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Wyn Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas a Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg).

**Hefyd yn Bresennol:** Geraint Owen (Pennaeth Cefngoaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Dilwyn O Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. **YMDDIHEURIADAU**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Glyn Daniels a Gethin Glyn Williams

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**
   Dim i'w nodi

4. COFNODION

   Llofnoddd y Cadeirydd gofnodion cyfarod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 17.10.17 fel rhai cywir.

5. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

6. **CYFWELD YMGEISYDD AR GYFER SWYDD PENNAETH ADDYSG**

   Cyfwelwyd un ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd.

   Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad ar sut y byddai yn mynd ati yn ymarferol i gyflwyno a chyflawni ei weledigaeth ac ymatebodd i nifer o gwestiynau dilynol.

Cyflwynwyd sylwadau o'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 25.10.17 gan Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol gyda chrynodeb o berfformiad yr ymgeisydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Garem Jackson.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â mentora, mynegodd y Prif Weithredwr y byddai'n trafod yr anghenion cefnogaeth briodol gyda'r ymgeisydd er mwyn ei gynorthwyo i ddatblygu yn ei rôl fel Pennaeth Addysg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL I BENODI MR GAREM JACKSON I'R SWYDD PENNAETH ADDYSG.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 11:45pm